

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

NDF Team,
Planning Policy Branch,
Welsh Government,
Cathays Park,
Cardiff
CF10 3NQ

8 Hydref 2019

PWNC: Ymgynghoriad Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

I bwy bynnag y mae'n berthnasol,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yr ydych yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth fanwl ar hyn yn ein cyfarfod diweddar.

Mae'r mwyafrif o'r polisïau a gynigir yn ymddangos yn synhwyrol a does dim angen ymateb iddynt, ond y mae pedwar polisi penodol yn achos pryder sylweddol i Gyngor Penmynydd a Star a thrigolion Ynys Môn.

Polisi 10 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth

Polisi 11 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar y Tu Allan i Ardaloedd â Blaenoriaeth

Polisi 12 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Polisi 13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill

Mae polisïau 10 ac 11 yn berthnasol i ffermydd gwynt mawr (gan ddefnyddio tyrbinau hyd at 250m o uchder) a phaneli haul. Mae rhan helaeth o ganolbarth Ynys Môn wedi ei dynodi fel 'Ardal Blaenoriaeth 1' ble mae rhagdybiaeth y bydd ceisiadau datblygu'n cael eu caniatáu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gywir yn canolbwyntio ar ynni cynaliadwy a gosod targedau am genedlaethau gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu carbon isel, ond y mae gennym y pryderon sylweddol canlynol:

1 – Nid oes polisi economic cynhwysfawr na pholisi ynni sy'n ystyried pob math o gynhyrchu ynni sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau arfaethedig yn ymddangos i fod yn ceisio ymgyrraedd ac ymdrechion Cymru gyfan i ymateb i newid hinsawdd trwy ddefnyddio ynni'r haul neu ynni gwynt ar dir, gan anwybyddu gwynt y môr, llanw a biomas. (Polisiâu 10,11,12 ac 13)

2 - Mae dewis yr ardal i'w dynodi fel Blaenoriaeth 1 yn ymddangos iddo gael ei sylfaenu ar ddadansoddi helaeth, ond mae'r ardal derfynol yn ymddangos ei bod wedi ei chreu ar hap ac mae'r esboniad am y rhesymau dros wneud hynny yn adroddiad yr ymgynghorwyr yn wael dros ben. (Polisi 10)

3 – Bydd yr effaith ar dirwedd Ynys Môn yn ddramatig, gan newid ardal amaethyddol wledig yn fôr o dyrbinau gwynt fel nodwyddau'n ymwithio i'r awyr yma a thraw. Bydd yr effaith ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn yn ddifäol a brawychus, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Eryri. (Polisi 10,11,12).


4 – Bydd effaith economaidd creu ardal ynni ar y tirwedd yn eithafol gan greu ardaloedd o dir uchel ei bris a chreu gostyngiad sylweddol yng ngwerth cartrefi ac ni fydd hyn o unrhyw gymorth i wella amgylchiadau cymdeithasol yr ardal hon nac Ynys Môn, sydd mor ddibynnol ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. (Polisi 10 ac 11)

5 – Mae'r mesurau cynllunio yn annelwig iawn a gellid eu dehongli fel dim gwarchodaeth o gwbl. (Polisi 10,11)

6 – Mae graddfa'r mathau o gynhyrchu trydan, yn arbennig tyrbinau 250m ar draws rhan helaeth o'r Ynys, yn syml yn amhriodol mewn sir ble mae'r mwyafrif o'r tir nemor fwy na 100m uwchlaw lefel y môr. (Polisi 10,11)

7 – Mae proses ymgynghori Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn wedi bod yn arswydus o wael a gwan, yn ail-adrodd camgymeriadau llinwyr polisiâu San Steffan, Gall Cymru, a dylai, wneud yn well. (Pob Polisi)

Rydym yn erfyn arnoch i feddwl eto, ail ystyried eich mapiau a chynnal ymgynghoriad trylwyr os ydych o ddifrif am gynnwys y cyhoedd yn y broses o ffurfio polisi. Nid ydym am weld datblygiadau ynni gwynt o'r maint yma ar dir Môn pan fod yna opsiynau eraill llawer mwy addas ar gael.



Graham Owen
Clerc Cyngor Penmynydd a Star.